Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Ffrwd Win
# Llanfaethlu
# Caergybi
# Ynys Môn
# LL65 4YW

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/12/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Ffrwd Win rhwng pentrefi Llanfaethlu a Llanfwrog ger Caergybi ar Ynys Môn. Mae’r ysgol yn gwasanaethu’r ddau bentref cyfagos a’r ardal wledig o amgylch. Daw o dan ofal awdurdod lleol Ynys Môn.

Ar hyn o bryd, mae 32 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Fe’u derbynnir yn amser llawn ar ddechrau’r tymor maent yn bedair oed. Fe’u haddysgir mewn dau ddosbarth o oed cymysg. Mae’r niferoedd disgyblion wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf.

Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a dysgu yn yr ysgol, gyda’r nod i bob disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Daw 65% o ddisgyblion o gartrefi ble na siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Nid oes disgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae tua 14% o’r disgyblion â’r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn llawer is na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tua 25% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig uwch na’r ffigwr cenedlaethol, ac mae gan nifer bach ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Medi 2007. Penodwyd y pennaeth presennol i’w swydd ym Medi 2004.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Ffrwd Win yn 2013-2014 yw £5,922. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £9,156 a'r lleiafswm yw £2,901. Mae Ysgol Ffrwd Win yn y pumed safle o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

**Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:**

- y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi ac yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- safonau medrau allweddol y disgyblion yn uchel;
- pob disgybl yn dangos cwrteisi, gofal a pharch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr;
- safon yr addysgu yn gyson dda;
- strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu gwreiddio yng ngwaith y plant;
- gan yr ysgol ethos cynhwysol a gofalgar lle mae'r disgyblion yn hapus ac yn awyddus i ddysgu; a
- bod yr ysgol yn cynnig cefnogaeth dda i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

### Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:**

- gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a hapusrwydd a lles disgyblion;
- holl aelodau staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm;
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r ysgol a'i pherfformiad;
- yr ysgol wedi datblygu prosesau hunanarfarnu trylwyr gan gynnwys llais y dysgwr; a
- bod y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau.

## Argymhellion

A1 Gwella ysgrifennu estynedig a chreadigol yn Saesneg

A2 Ymestyn ymhellach lefel yr her i ddisgyblion o allu uwch ar draws y cwricwlwm

A3 Cynyddu'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Nid yw data perfformiad yr ysgol yn 2013 yn adlewyrchu safonau gwaith cyfredol disgyblion a welwyd yn y gwersi ac yn eu llyfrau yn ystod yr arolygiad.

Mae medrau sylfaenol y mwyafrif o'r disgyblion, wrth ddechrau'r ysgol, yn amrywio'n fawr. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da, yn ôl eu gallu, ym mhob un o'r meysydd dysgu.

Mae safonau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Gymraeg yn gadarn, gyda bron pob disgybl yn siarad yn gynyddol gywir a hyderus erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Maent yn ymateb yn eiddgar i gwestiynu'r athrawon ac yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda.

Ar y cyfan, mae medrau darllen y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn unol â'u hoedran a'u gallu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gynyddol gywir a hyderus, ond mae ychydig ohonynt yn darllen heb fynegiant priodol yn y ddwy iaith.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn sillafu ac yn ysgrifennu yn gynyddol gywir. Maent hefyd yn gallu ysgrifennu darnau annibynnol mewn amrywiaeth o destunau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg at wahanol ddibenion yn effeithiol. Maent yn defnyddio paragraffau ac yn atalnodi yn gywir yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu'n estynedig yn eu gwaith creadigol Saesneg. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad y disgyblion yn briodol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae medrau'r disgyblion yn uchel ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd, medrau meddwl a'u medrau ymchwilio yn bwrpasol yn eu gwaith ar draws y pynciau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o strategaethau rhifedd ac mae'r goreuon yn medru cymhwyso'r wybodaeth hon ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.

Mae bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mwy galluog yn gwneud cynnydd da ond nid ydynt bob amser yn cael eu hymestyn ar draws yr holl bynciau.

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf.

Yn 2013, roedd canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Roedd cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig hefyd yn is ym mhob maes dysgu.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn y 50% isaf ar gyfer yr holl ddangosyddion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn 2012, roedd yr ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer yr holl ddangosyddion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru yn 2013. Mae'r tuedd wedi bod yn anwastad, ond gan mwyaf yn is na'r teulu dros gyfnod o bedair blynedd. Fodd bynnag, mae'r canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru yn y ddwy iaith, mathemateg a gwyddoniaeth.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ag ysgolion tebyg o ran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 50% isaf am Saesneg a mathemateg ac yn y 25% isaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd, gwyddoniaeth a'r Gymraeg. Mae'r tueddiad wedi bod yn debyg dros y tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r tueddiad ar y lefelau uwch yn dangos darlun cadarnhaol yn y ddwy flynedd ddiwethaf, gan mwyaf yn y 25% uchaf neu'r 50% uchaf, yn dilyn cyfnod o fod yn is.

**Lles: Da**

Mae pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach. Maent hefyd yn cyflawni'n gyson dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae bron bob disgybl yn frwdfrydig, yn mwynhau eu gwersi ac yn cyfrannu'n eiddgar ymhob agwedd ar eu dysgu. Maent yn cydweithio ac yn cefnogi dysgu ei gilydd yn dda iawn yn y gwersi.

Mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill y gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae disgyblion o bob oed yn cynnig cymorth a chyfeillgarwch i eraill yn gyson.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion yr ysgol yn gyson uchel. Bu'r presenoldeb yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran lefelau cinio am ddim mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae prydlondeb hefyd yn dda.

Mae'r disgyblion yn chwarae rôl bwysig ym mywyd a gwaith yr ysgol drwy eu swyddogaethau gyda'r cyngor ysgol a'r cyngor eco. Maent wedi datblygu rheolau dosbarth a chaiff disgyblion y Cyfnod Sylfaen ysgwyddo cyfrifoldebau wythnosol drwy eu swyddogaeth fel 'capteiniaid cyfrifoldeb' ac 'arwyr annibynnol'. Mae syniadau'r cyngor ysgol yn cael lle amlwg yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae hyn yn dystiolaeth bod llais y disgybl yn cael sylw haeddiannol ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae’r disgyblion yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi ei gyflawni i wella eu hysgol a’u hamgylchedd. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol yn yr ardal.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol i’w disgyblion, sy’n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol, ynghyd ag anghenion holl ddisgyblion yr ysgol. Mae’r holl athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau diddorol sy’n ennyn diddordeb a chwilfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu’n llwyddiannus ar y profiadau blaenorol y disgyblion drwy’r ysgol.

Mae cynlluniau manwl ar gyfer gweithgareddau amrywiol yn y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod y rhan fwyaf o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y medrau. Mae gan yr ysgol gynllun gweithredu clir ar gyfer gweithredu’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae elfennau ohono eisoes i’w weld ar lawr y dosbarth. Mae’r cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 2 yn talu sylw priodol i ddatblygu’r medrau ar draws y cwricwlwm, ond nid yw’r disgyblion mwy abl bob amser yn derbyn digon o her. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu yn effeithiol, ond nid oes digon o gyfleoedd i’r disgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn y Saesneg yn llawn. Mae’r modd y mae medrau meddwl y disgyblion yn cael eu datblygu yn gryfder yn yr ysgol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig mewn amrywiol gyd-destunau yn gyfoethog ac yn ganolog i holl waith a bywyd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn darparu digon o weithgareddau allgyrsiol i ymestyn a chyfoethogi profiadau’r disgyblion.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu’n briodol o fewn yr ysgol. Mae’r disgyblion yn elwa o’r cyfleoedd i gyfrannu at weithgarwch y cyngor eco sy’n helpu i sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu’n gynaliadwy.

**Addysgu: Da**

Mae’r addysgu’n gyson effeithiol ar draws yr ysgol. Mae gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel a defnyddiant amrywiaeth dda o ddulliau dysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Mae ganddynt ffocws clir ar atgyfnerthu’r medrau. Maent yn holi cwestiynau treiddgar a chynnig cyfleoedd pwrpasol i’r disgyblion weithio mewn parau ac mewn grwpiau bach. Mae’r holl staff yn defnyddio ystod o strategaethau rheoli dosbarth yn effeithiol iawn. Mae gan yr holl athrawon wybodaeth bynciol dda.

Mae’r gwersi wedi eu cynllunio’n briodol, er nad yw’r disgwyliadau bob amser yn ddigon heriol i’r plant uwch eu gallu. Defnyddia’r holl athrawon ystod helaeth o adnoddau pwrpasol, gan gynnwys offer TGCh, yn llwyddiannus i gefnogi’r dysgu ac

addysgu. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r gorddefnydd o daflenni yn llesteirio cyfleoedd disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig.

Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r disgyblion ac yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion unigol er mwyn iddynt gwblhau eu tasgau. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu priodol ar waith. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r data i fonitro cynnydd y disgyblion ac i ddarparu rhaglenni addysgol ychwanegol yn ôl yr angen.

Mae gan yr athrawon strategaethau asesu ar gyfer dysgu defnyddiol. Maent wedi eu sefydlu'n effeithiol ar draws yr ysgol er mwyn cynnig cyfleoedd addas i'r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae'r athrawon yn rhannu'r amcanion ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson ac yn cynnig sylwadau adeiladol, gyda hyn yn cynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella safon eu gwaith.

Mae staff yn llunio adroddiadau defnyddiol yn flynyddol i rieni a gofalwyr ar gynnydd y disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amryw o gyfleoedd eithriadol o dda i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae bron pob disgybl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Maent yn deall pwysigrwydd gwerthoedd fel gonestrwydd a pharch er mwyn gweithio'n llwyddiannus fel cymuned.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol da iawn ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol y disgyblion. Mae'n cydweithio yn agos iawn gydag asiantaethau allanol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn elwa o'r cymorth perthnasol sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth cwnsela a'r gwasanaeth seicolegol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Defnyddia'r ysgol amrywiaeth o ddulliau addas yn effeithiol i adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion, gan gynnwys profion darllen a barn broffesiynol yr athrawon. Mae'r disgyblion hyn yn elwa o'r gefnogaeth dda megis grwpiau ymyrraeth, cefnogaeth i unigolion, a chymorth o fewn y dosbarthiadau. Mae gan yr ysgol drefn gynhwysfawr o fonitro cynnydd y disgyblion hyn, ac mae'n amrywio lefel y gefnogaeth yn briodol fel bo'r angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Ffrwd Win yn ysgol hapus. Mae'r ysgol yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion. Mae hyn yn galluogi pawb sy'n

gysylltiedig â'r ysgol i deimlo'n falch o'i hunaniaeth fel y gallant gyfranogi'n llawn i fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a goddefgarwch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a'i gilydd yn llwyddiannus, ac yn talu sylw i gyfraniad pob unigolyn a'i safbwyntiau.

Mae amgylchedd ddysgu ddeniadol a lliwgar yn yr ysgol, gydag enghreifftiau o ddyletswyddau a gwaith y disgyblion yn cael eu harddangos mewn modd chwaethus. Yn dilyn awgrymiadau gan y cyngor ysgol, mae gan yr ysgol 'ardd dawel' drawiadol, gyda chadair dderw ddeniadol ar gyfer 'dweud stori' yn ganolbwynt iddi. Mae gan yr ysgol hefyd ardal awyr agored ddeniadol ar gyfer cyflwyno agweddau ar y brofiadau dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r toiledau o safon uchel a chaiff adeilad a thir yr ysgol eu cadw'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles disgyblion. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir sy'n cyfrannu'n llwyddiannus tuag at wireddu ei hamcanion. Er bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, nid ydynt yn cael eu cofnodi'n ffurfiol. Mae gan holl staff yr ysgol swydd ddisgrifiadau manwl sy'n nodi'n glir eu rôl a'u cyfrifoldebau. Mae'r ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm yn yr ysgol yn gryfder.

Mae'r corff llywodraethol yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn chwarae rôl flaenllaw yn strategaeth wella'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn monitro safonau'r ysgol yn ofalus, ac yn llunio adroddiadau arfarnol defnyddiol o'r hyn a welwyd. Maent hefyd yn monitro cynnydd y cynllun datblygu ysgol yn erbyn y meini prawf llwyddiant yn effeithiol. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau manwl gan y staff ar gyrhaeddiad disgyblion a pherfformiad yr ysgol yn rheolaidd. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion y teulu, ac ysgolion tebyg, yn datblygu'n dda. Mae hyn oll yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac mae'r ysgol eisoes wedi ymgorffori elfennau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gadarn i gynlluniau'r ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol adnabyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol a mannau i'w datblygu. Mae staff, disgyblion llywodraethwyr a rhieni yn cymryd rhan lawn yn y broses.

Mae'r broses hunanarfarnu yn drylwyr ac wedi ei seilio'n glir ar dystiolaeth o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddiad manwl o ddata. Mae'r athrawon a'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol tuag at y broses trwy greu adroddiadau cynhwysfawr am ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion. Mae gan yr holl staff

ymwybyddiaeth gadarn o ddata perfformiad sy'n eu galluogi i adnabod anghenion unigolion a charfannau o ddisgyblion. Caiff hyn ei fwydo'n llwyddiannus i mewn i gynllun datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, mewn mannau mae tuedd i'r adroddiad hunan arfarnu fod yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw bob amser yn nodi'n glir yr effaith ar safonau.

Mae cyswllt agos rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau ac wedi ei gostio'n ofalus ac nodi cyfrifoldeb staff yn glir. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni priodol ar gyfer eu cwblhau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n briodol gydag ystod o bartneriaethau. Mae hyn yn cael effaith bositif ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae perthynas dda yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth yn llwyddiannus am weithgareddau'r ysgol a gwaith y dosbarth trwy lythyru cyson.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol megis gwasanaethau diolchgarwch yn yr eglwys leol, ynghyd â nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau da gydag asiantaethau allanol, yr awdurdod a'r consortiwm. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gyda'r ysgol feithrin leol i sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n fuan yn yr ysgol. Mae'r cydweithio llwyddiannus gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y dalgylch, i gyd safoni a chymedroli, yn sicrhau dilysrwydd lefelau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae cydweithio effeithiol hefyd yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd. Caiff disgyblion hynaf yr ysgol nifer o gyfleoedd i gydweithio â'r ysgol uwchradd ar sawl prosiect a gweithgaredd. Mae'r trefniadau hyn yn hyrwyddo trosglwyddo effeithiol ar gyfer y cam nesaf o'u haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. Gwneir defnydd llawn o arbenigedd staff. Enghraifft o hyn yw'r defnydd effeithiol o athrawes i addysgu agweddau gwyddonol ar y cwricwlwm ar draws yr ysgol i sicrhau dilyniant a pharhad yn yr addysgu a'r dysgu. Defnyddia'r athrawon y cymorthyddion dosbarth a staff cefnogi yn effeithiol iawn i roi cefnogaeth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff. Sefydlwyd cymuned ddysgu broffesiynol fuddiol rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill y dalgylch i ddatblygu strategaethau darllen. Mae hyn wedi arwain at godi safonau darllen y disgyblion yn ôl profion safonedig.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon. Defnyddia'r athrawon eu hamser digyswllt yn effeithiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau ac fe ddefnyddir hwy yn effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae'r ysgol wedi prynu offer technoleg gwybodaeth yn ddiweddar sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Rheolir gwariant yn briodol gan y pennaeth a'r corff llywodraethol. Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a all effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf.

Yn 2013, roedd canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Roedd cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig hefyd yn is ym mhob maes dysgu.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn y 50% isaf ar gyfer yr holl ddangosyddion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn 2012, roedd yr ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer yr holl ddangosyddion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru yn 2013. Mae'r tueddiad wedi bod yn anwastad ond gan mwyaf yn is na'r teulu dros gyfnod o bedair blynedd. Fodd bynnag, mae'r canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru yn y ddwy iaith, mathemateg a gwyddoniaeth.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ag ysgolion tebyg o ran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 50% isaf am Saesneg a mathemateg ac yn y 25% isaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd, gwyddoniaeth a'r Gymraeg. Mae'r tueddiad wedi bod yn debyg dros y tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r tueddiad ar y lefelau uwch yn dangos darlun cadarnhaol yn y ddwy flynedd ddiwethaf, gan mwyaf yn y 25% uchaf neu'r 50% uchaf, yn dilyn cyfnod o fod yn is.

Oherwydd bod carfanau bach iawn yn yr ysgol, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon ar batrwm o dangyflawni gan grwpiau o ddisgyblion ar sail data cyrhaeddiad. Mewn gwersi, ac mewn llyfrau gwaith disgyblion, nid oes unrhyw batrwm clir o wahaniaeth cyflawniad rhwng bechgyn a merched.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 16 | 14<br>88% | 2<br>12% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 78% | 22% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 22 | 18 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 22 | 18 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 22 | 18 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 22 | 17 | 3 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 77% | 14% | 5% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 22 | 13 | 7 | 2 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 59% | 32% | 9% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 22 | 17 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 22 | 18 | 2 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 82% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 19 | 12 | 5 | 0 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 63% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 22 | 18 | 2 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 82% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 22 | 17 | 4 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 77% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 22 | 16 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 20 | 14 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 70% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 21 | 17 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 22 | 18 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 22 | 16 | 4 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 73% | 18% | 9% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 22 | 17 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 77% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 19 | 14 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 21 | 15 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 71% | 24% | 5% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 22 | 18 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Eluned Griffith | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Carolyn Jane Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Lloyd Thomas | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.